# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Awst 2012



## Diwrnod y Gaiman

### 14 Awst 1874 - 14 Awst 2012

Bu dathlu mawr yn y Gaiman yn ystod mis Awst, gydag wythnos o weithgareddau i nodi pen blwydd y pentref yn 137 oed.

Naw mlynedd ar ôl cyrraedd yr Ariannin gyntaf, symudodd y Cymry yn bellach i'r tir gan sefydlu pentref lle mae'r Gaiman heddiw. Mae'r tŷ cyntaf, a adeiladwyd gan David Roberts yn ystod y flwyddyn honno, i'w gweld o hyd a bellach ar agor i'r cyhoedd. Enw Indiaidd ydy 'Gaiman', ac mae gwahanol ddehongliadau iddo. Dywed rhai mai 'carreg hogi' ydy'r ystyr ac eraill 'lle cul', ond mae'n debyg mai 'Pentref Sydyn' oedd y Cymry yn ei alw gan iddo ddatblygu'r gyflym iawn yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Yn y Gaiman sefydlwyd cyngor cyntaf talaith Chubut, a hynny yn 1885.




Mae'r Gaiman yn parhau i ddatblygu, gyda thua 10,000 o bobl bellach yn byw yno. Daeth nifer o'r trigolion hynny ynghyd yn ystod ail wythnos lawn mis Awst i ddathlu pen blwydd y Gaiman yn 138 oed mewn gwahanol ddigwyddiadau. Cynhaliwyd gweithdy tango yn y Neuadd Ddiwylliant, cyngherddau, taith canŵs ar yr afon, helfa drysor o amgylch y Gaiman, ffair grefftau yn sgwâr y pentref, a swper arbennig ymysg pethau eraill.




Paratôdd Gôr Cymysg y Gaiman de yn y ganolfan hamdden brynhawn Sadwrn yr 11eg o Awst, a daeth amryw bobl i fwynhau paneidiau a danteithion blasus a gwrando ar y côr yn canu ambell gân.



A hithau'n ddiwrnod o wyliau yn y Gaiman ar y diwrnod mawr, sef y 14eg o Awst, cynhaliwyd acto yn y ganolfan hamdden. Yn ystod y noson canodd y pedwarawd poblogaidd Hogia'r Wilber, dawnsiodd y grŵp Danzarin, perfformiodd rhai o ddisgyblion Ysgol 555, ac anrhydeddwyd rhai o drigolion y Gaiman am eu cyfraniad i fywyd y pentref.

Ar nos Iau yr 16eg o Awst, cynhaliodd Ysgol Gerdd y Gaiman a'r Ysgol Feithrin dwmpath dawns ar y cyd, hefyd yn y ganolfan hamdden. Daeth nifer o deuluoedd a chyfeillion y ddwy ysgol i wylio'r plant yn dawnsio gwahanol ddawnsfeydd gwerin, ac roedd cyfle i rai ohonyn nhw hefyd i ymuno yn yr hwyl wrth i Cinthia Zamarreño, Judith Jones, a Lois Dafydd ddysgu ambell ddawns werin iddyn nhw.



Wrth gwrs, roedd Stryd Eugenio Tello yn lliwgar dros ben fore Sul y 19eg o Awst gyda nifer fawr o bobl wedi ymgynnull ar gyfer yr orymdaith flynyddol. Gorymdeithiodd gwahanol gymdeithasau ac ysgolion yr ardal, gan gynnwys Ysgol Camwy, yr Ysgol Feithrin, Clwb Rygbi Draig Goch, Cymdeithas Dewi Sant, cyn i'r ceffylau farchogaeth heibio. Cafodd pawb groeso a chymeradwyaeth mawr gan y dorf niferus oedd wedi dod i wylio.

Pen Blwydd Llawen i'r Gaiman!

Lois Dafydd

# Eisteddfod Mimosa

Dechreuodd y diwrnod am 8.30am mewn ysgol ym MhorthMadryn - amser rhagbrofion! Beirniad adrodd yn Gymraeg oeddwn i (Elliw Baines Roberts) a daeth 29 i ragbrawf adrodd 7 i 9 oed, 'Ein Byd Mawr Crwn' gan Esyllt Nest Roberts; pob un o Ysgol yr Hendre, relew. Tasg anodd iawn oedd dewis 3 i fynd ar lwyfan yr eisteddfod yn y prynhawn! Dewisais 5, ac roedd hi bron yn amhosib dewis 3! Ond rhaid oedd gwneud hynn. Agustin, Irupé a Gareth gafodd y cyfle I fynd ar y llwyfan, ond roedd rhaid i mi roi canmoliaeth fawr i Hannah a Dylan hefyd am adrodd yn arbennig o dda! Irupe Meza White gafodd gyntaf am adrodd yn dda iawn, gydag Agustin yn ail aGareth yn drydydd.



Cafodd nifer fawr o Ysgol yr Hendre lwyddiant yn yr eisteddfod; roedd tipyn o waith paratoi wedi'i wneud, felly da iawn chi blant. Heb anghofio gwaith caled yr athrawon hefyd, wrth gwrs! Braf oedd gweld plantos mor ifanc yn serennu ar lwyfan yr eisteddfod yn canu, dawnsio ac adrodd.



Eric Williams, Ysgol yr Hendre gafodd gyntaf am adrodd 'Gwynt y Nos' gan T. Llew Jones(10 i 13oed) ac Uma Oliver Lopez, hefyd o Ysgol yr Hendre yn ennill adrodd 'Cân Mosgito' gan Esyllt Nest Roberts.

Cawsom i gyd fwynhad ac ein swyno gan berfformiadau amrywiol yn ystod y dydd. Daeth cystadleuwyr o Drelew, Gaiman, Rawson a Phorth Madryn ei hun hefyd. Dechreuodd yr eisteddfod am tua 2.30 y prynhawn hwnnw. Clare Whitehouse (Trevelin) oedd beirniad y canu Cymraeg, Juan Jose Cura oedd yn cadw cwmni iddi ar y bwrdd beirniadu cerddoriaeth, yntau yn beirniadu cystadlaethau cerddoriaeth Sbaeneg. Sara Jones oedd yn beirniadu'r grwpiau dawnsio gwerin. Yn ail ran yr eisteddfod, sef gyda'r nos, cawsom longyfarch Nantlais Evans o Bariloche am ennill Tlwsyr Eisteddfod am ysgrifennu cerdd Gymraeg, 'Hen Gapel fy Ardal' - y beirniad oedd y Prifardd Myrddin ap Dafydd o Gymru - ac i Arié Lloyd de Lewis am ennill Tlws yr Eisteddfod yn Sbaeneg. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ar eu gwaith arbennig.




Un o'r cystladeuthau olaf oedd y grwpiau dawnsio gwerin, a rhaid canmol pob un aeth ar y llwyfan am roi perfformiadau egniol gyda gwên ar eu hwynebau a hithau mor hwyr. Aeth Eisteddfod Mimosa yn ei blaen tan wedi un o'r gloch y bore!

# Cymanfa Ganu Capel Seion, Bryn Gwyn

Mae Capel Seion bellach wedi cael ei ailagor yn dilyn gwaith adnewyddu, ac yn ddiweddar agorodd ei ddrysau ar gyfer Cymanfa Ganu Cymdeithas Dewi Sant. Cyrhaeddodd nifer dda o bobl yr adeilad hanesyddol ym Mryn Gwyn ar brynhawn Sadwrn y 18fed o Awst, yn barod i ganu gyda'i gilydd. A dechreuodd y canu gyda dau emyn dan arweiniad Edith MacDondald cyn i Liliana Evans dalu teyrnged i Marlen Jones de Owen a Delia Lloyd de Vales a fu farw'n ddiweddar.




Darllenwyd Salm 62 a Luc 10:1-9 cyn i Nelly Ritchie bregethu ar heddwch yn seiliedig ar yr adnodau o Efengyl Luc. Parhaodd y canu dan arweiniad Mirna Jones, Gladys Thomas, Judith Jones ac Estela Williams, a hynny i gyfeiliant Lis Suarez ar yr organ, David Pacheco ar y sacsoffon, a grŵp llinynnol Sylvia Baldor. Traddododd Lois Dafydd y weddi olaf, cyn i'r canu ar gymanfa ddod i ben.

Bydd y gymanfa nesaf yn cael ei chynnal yng Nghapel Bethlehem Treorci am 4 o'r gloch ar brynhawn dydd Sadwrn yr 8fed o Fedi.

# Cymdeithas Cymru-Ariannin yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Bro Morgannwg oedd man cynnal yr Eisteddfod eleni -  ardal eang, wledig sy'n ymestyn o gyrion Caerdydd i gyrion Pen-y-bont ar Ogwr ond sydd hefyd yn cynnwys trefi y Barri, Penarth a'r Bontfaen. Lleoliad y maes oedd pentref Llandŵ ac roedd trefniant y babell dan ofal cangen y De ac yn ôl yr arfer, darparwyd yn drylwyr. Dathlu 15 mlynedd y Cynllun Dysgu Cymraeg oedd testun yr Arddangosfa eleni - hyn yn cyd-fynd â sgwrs yr Athro Robert Owen Jones yn y Cyfarfod Blynyddol. Daeth nifer o gyn-athrawon y Cynllun i weld yr arddangosfa ac i wrando ar y sgwrs. Mae rhai lluniau - a bydd mwy yn cael eu hychwanegu cyn hir - ar wefan y Gymdeithas - www.cymru-ariannin.org.




Croesawyd teulu Bod Iwan i'r babell sawl gwaith, a manteisiodd y teulu ar fynychu sawl digwyddiad yn yr Ŵyl. Archentwyr eraill oedd yn bresennol oedd Virginia Steinkamp, Trelew oedd ar gwrs Caerdydd o dan y Cynllun a Guillermo Williams a Luciana Cordo Rosso oedd yno dan nawd Prifysgol Caerdydd, yn ogystal â Gaby Cortiñas sy'n byw yn yr Eidal erbyn hyn.

Brynhawn dydd Llun lansiwyd gwefan y Gymdeithas sydd wedi ei huwchraddio, diolch i Nigel Callaghan o Gwmni Technoleg Taliesin. Ar ddiwedd  y Cyfarfod Blynyddol cafwyd cyfle yn y babell dros wydraid o win neu sudd oren a chacen i ddiolch i Morfudd Slaymaker am ei gwaith ar hyd y blynyddoedd y cynhaliwyd y cwrs yn Llambed. Bu Morfudd a'i diweddar ŵr, Eric, mor groesawgar a gofalus o'r myfyrwyr a ddeuai i Lambed.




Yn goron ar yr wythnos enillodd Isaias Grandis, Trevelin, gystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn 2012 - yr ail o'r Wladfa (a'r ail o Drevelin!) i ennill - a hynny mewn blwyddyn lle bu mwy nag erioed yn cystadlu - 37. Llongyfarchiadau iddo, a llongyfarchiadau hefyd i Gweneira Davies de Quevedo, Trelew a enillodd y gystadleuaeth i rai sydd wedi byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes. Y teitl eleni oedd 'Achlysur i'w gofio' ac ysgrifennodd Gweneira am 'Noson o wanwyn ar y paith'.

Edrychwn ymlaen nawr at  Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r cyffiniau 2-10 Awst 2013. Beth am i chi gystadlu ar y gystadleuaeth i Wladfawyr - y testun yw 'Y pedwar tymor yn y Wladfa' (heb fod yn llai na 1,500 o eiriau) ar ffurf traethawd, cyfres o negeseuon e-bost, neu flog. Gwobr: £200 (Cymdeithas Cymru-Ariannin - Gwobr Goffa Shan Emlyn) Beirniad: Nans Rowlands.



Anfonwch y darnau cyn 1 Ebrill 2013 at: Ceris Gruffudd (Ysgrifennydd)  Cymdeithas Cymru-Ariannin) Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn -coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE Rhoshelyg@btinternet.com

Ceris Gruffudd
Penrhyn-Coch



# Holi Gweneira Davies...

**1. O ble ydych chi'n dod yn wreiddiol?**
*Cefais fy ngeni yn ardal Bryn Crwn, wedyn i'r dref, a bûm allan o'r Dyffryn wedi hynny am dros 25 o flynyddoedd: Comodoro Rivadavia, Viedma, Tecka, Esquel, nes i mi ddod yn ôl i Drelew yn 1956.*

**2. Beth ydy eich atgof cynharaf?**
*Byw ar y ffarm nes oeddwn yn chwech oed a difyrru fy hun yn nghwmni holl natur.*

**3. Ble, sut a pham ddysgoch chi Gymraeg?**
*Adref ar yr aelwyd gyda iaith gartrefol ers pan oeddwn yn blentyn nes symud i'r dref i fynychu Ysgol y Llywodraeth, ond cadw y Gymraeg trwy fy mywyd.*

**4. Pa un yw eich hoff air Cymraeg?**
*'Diolch' a 'Heddwch'.*

**5. Beth oedd eich swydd?**
*Athrawes ysgol gynradd.*

**5. Pryd ddechreuoch chi ysgrifennu?**
*Ychydig cyn i mi ymddeol, ond hoffais ysgrifennu erioed.*

**6. O ble daw eich ysbrydoliaeth i ysgrifennu?**
*O ochr fy mam. Roedd hi'n disgyn o deulu Ffriddgymen ger Llanuwchllyn. Fy nain yn chwaer i Lliw Tegid, Penllyn Jones, yr emynydd ac eraill o'i brodyr.*

**7. Beth ydych chi'n hoffi/ddim yn hoffi gwneud?**
*Dwi'n hoffi dysgu a helpu yr hwn sydd ei angen, yn enwedig plant. Nid wyf yn hoff o goginio, ond cefais fy nysgu yn ifanc iawn ac yn dal i wneud gyda gofal a chariad at y teulu.*

*8.* **Beth ydy eich hoff/cas fwyd?** *Salad a ffrwythau o bob math. Rwyf yn hoffi pob bwyd, ond iau.*

**9. Ydych chi wedi bod i Gymru?**
*Bûm yng Nghymru yn 1987 am dros fis. Crwydrais lawer yno gyda llawn fwynhad.*

**10. Ble mae eich hoff le yn y byd?** *Patagonia, ac yno y Wladfa yn bendant.*

# Diwrnod San Martín

Roedd yr 17eg o Awst yn gyfle i gofio am un o arloeswyr yr Ariannin, José de San Martín.

Fe'i ganed yn Corrientes, gogledd yr Ariannin, ar 25 Chwefror 1778 a symudodd i Sbaen pa oedd yn saith mlwydd oed. Dychwelodd i'w famwlad yn 1812 ac roedd yn ffigwr amlwg yn y frwydr am annibyniaeth i'r Ariannin gan arwain sawl byddin lwyddiannus mewn gwahanol frwydrau. Bu hefyd yn flaenllaw wrth sicrhau annibyniaeth i Chile a Pheriw yn ystod yr un cyfnod, ac ef oedd Arlywydd cyntaf Periw. Yn 1824 gadawodd San Martín y byd gwleidyddol a milwrol a symudodd i Ewrop. Bu farw yn Ffrainc ar 17 Awst 1850.



Mae José de San Martín yn cael ei ystyried yn arwr cenedlaethol yn yr Ariannin, ac ar yr 17eg Awst mae'r genedl yn cofio'r dyn fu mor flaengar a phwysig yn hanes y wlad. Cynhaliwyd seremonïau ar hyd a lled y wlad, ac roedd dydd Llun yr ugeinfed yn ddiwrnod o wyliau er cof am San Martín.

# Gair o Lanrug

Gyda hiraeth mawr y gadawodd Nant a minnau Batagonia ddiwedd Awst 2010, ar ôl treulio bron i flwyddyn bleserus a bythgofiadwy yn byw yn Nhŷ Camwy ar Heol Michael D Jones yn y Gaiman. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu Nant yn addysgu yn Ysgol yr Hendre, Trelew, yr Ysgol Feithrin a'r dosbarthiadau Ôl-feithrin yn y Gaiman, ac ambell ddosbarth yng Ngholeg Camwy. Roeddwn innau'n cael y fraint o weinidogaethu ymysg aelodau'r eglwysi sy'n rhan o'r Undeb Eglwysi Rhyddion Dyffryn Camwy a phregethu ar y Suliau, yn bennaf yng Nghapel Bethel y Gaiman, Capel Tabernacl yn Nhrelew (gyda gofal am ddosbarth yr Ysgol Sul Gymraeg), ac yn achlysurol yn rhai o eglwysi eraill y Dyffryn Isaf a Chapel Seion, Esquel ym Mro Hydref.



Tydi'r hiraeth ddim wedi pylu o gwbl, os rhywbeth mae o wedi dwysáu, nes ein bod yn dyheu am gael dychwelyd i'r Wladfa er mwyn gweld ein cyfeillion annwyl yno, sydd â lle mawr yn ein calonnau. Fe gawn unwaith yn rhagor droedio'r lleoedd hynny ar lannau'r Camwy ac wrth droed yr Andes, a roddodd gymaint o bleser i ni yn ystod ein harhosiad.

Y wefr fwyaf i ni ar ôl cyrraedd adref, oedd cael gweld ein hwyres fach gyntaf, Gwen Elin. Fe'i ganwyd hi ym mis Ebrill 2010, ac roedd hi'n ferch fach nobl bedwar mis oed pan gawsom ni ei hanwesu am y tro cyntaf, a dweud wrthi mor falch yr oeddem o gael gwneud hynny.



Fe ailgydiodd Nant yn ei gwaith cyfieithu a chafodd waith cyson ers hynny i'w chadw'n brysur. Yn ychwanegol cafodd waith pleserus o warchod Gwen Elin yn ysbeidiol pan ddychwelodd ei mam hi, Eirian, i addysgu yn un o ysgolion cynradd Bangor. Ym mis Mehefin y llynedd cafodd ein hŵyr bach Deio Glyn ei eni yng Nghaerdydd ac erbyn mis Ionawr y flwyddyn nesaf bydd ein 'nietos' wedi dyblu o ddau i bedwar. Bydd Gwen Elin wedi cael brawd neu chwaer fach ym mis Hydref, a bydd cefnder neu gyfnither fach newydd ganddi yn Llangennech, ger Llanelli, lle mae Eurig a Bethan yn byw. Digon o waith gwarchod a diddanu'r plantos bach o'n blaenau felly!

Daeth tro ar fyd, fodd bynnag, yn fy ngweinidogaeth i. Cyn i mi gychwyn am Batagonia, roeddwn yn Ficer Plwyf Llanwnda a Llandwrog ger tref Caernarfon ac yn Gyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Bangor, gyda gofal am 19 o Ysgolion Eglwys yn ymestyn dros dair o siroedd, sef Conwy, Môn a Gwynedd. Bythefnos cyn i mi ymadael â'r Gaiman fe'm hysbyswyd gan Esgob Bangor, ei fod yn dymuno i mi adael fy ngwaith yn y plwyf a'r ysgolion, a symud i weithio fel Canon Trigiannol yn yr Eglwys Gadeiriol ym Mangor. Yn rhan o'm swydd newydd fe fyddwn yn gyfrifol am fywyd Cymraeg a Chymreig yr Eglwys Gadeiriol ac yno'r wyf wedi bod yn gweinidogaethu ers Ionawr 2011. Ond gan fy mod bellach wedi cyrraedd oed pensiwn, rwyf wedi penderfynu ymddeol ar Sul olaf fis Medi eleni.

Yn gymdeithasol, daeth galwadau di-ri arnom i rannu ein profiadau ym Mhatagonia gyda sawl cymdeithas ac eglwys a buom yn diddanu sawl cynulleidfa trwy ddangos lluniau a dweud ein hanes. Yn ystod haf 2011, fe'm hetholwyd am yr ail dro yn Gadeirydd Cymdeithas y Dywysoges Gwenllian, aeres Llywelyn ein Llyw Olaf a anfonwyd pan yn faban bach o Gymru gan y Brenin Edward 1af i leiandy yn Nwyrain Lloegr i'w chadw'n garcharor yno. Cododd y Gymdeithas gofeb yn ddiweddar i gofio am Gwenllian gerllaw olion y Lleiandy yn Sempringham, Swydd Lincoln. Rwyf hefyd yn Gadeirydd Fforwm Hanes Cymru, mudiad sy'n rhwydweithio gwaith nifer o gymdeithasau hanes a threftadaeth yng Nghymru. Mae Nant a minnau hefyd yn aelodau o Gymdeithas Cymru-Ariannin Môn ac Arfon, ac yn aelodau o Glwb Cerdded Esgobaeth Bangor a sefydlwyd gennyf yn y flwyddyn 2000 gan drefnu teithiau cerdded unwaith y mis yng ngwahanol rannau o Barc Cenedlaethol Eryri, a thaith breswyl unwaith y flwyddyn mewn gwahanol ardaloedd o Gymru a Lloegr. Felly, fe fydd gennyf ddigon i'w wneud ar ôl ymddeol! Ond y peth cyntaf y byddaf yn ei wneud yw dod am dro i'r Wladfa fis Hydref.



Tegid Roberts
Llanrug, Gogledd Cymru.

# Capel Salem yn 100 oed!




Dathlodd Capel Salem, Lle Cul ei ganmlwyddiant fis Mai eleni, ac ar brynhawn Sadwrn y 25ain o Awst daeth cyfle i ddathlu'r pen blwydd arbennig hwnnw. Roedd y capel yn orlawn a nifer yn sefyll y tu allan i'r adeilad wrth i Adrian Mellado agor y dathliad mewn gair o weddi. Rhoddodd Cymdeithas Dewi Sant, Trelew blac i'r capel i nodi'r digwyddiad pwysig, a chafodd ei ddadorchuddio gan Gadeiryddes y gymdeithas, Graciela Colosante, a Maer y Gaiman, Gabriel Restucha.



Roedd rhaglen orlawn wedi'i pharatoi ar gyfer y gynulleidfa gyda Meirion Griffiths yn arwain y gwahanol eitemau, ac ym-ddangosodd nifer o gantorion ar lwyfan y capel. Ymhlith yr unawdwyr oedd Valentina Fernandez, Alberto Ceballos, Billy Hughes, a chanodd Andrés Evans yr emyn, 'Pwy fydd yma ymhen can mlynedd?' Ymunodd y gynulleidfa ag ef i ganu cytgan yr emyn addas hwn. Cafwyd deuawdau gan Bianca a Violeta Parise, Caren ac Ivonne Jones, a Tamara a Yamila Gomez, parti canu'r teulu Ceballos/Roberts, a chôr o gyn-aelodau Ysgol Sul Salem. Cafodd y gynulleidfa gyfle i ganu hefyd wrth i Edith Macdonald ei harwain mewn tri emyn yn ystod y prynhawn, a rhannodd Jorge Leccese neges gyda'r gynulleidfa yn seiliedig ar Salm 71.



Derbyniodd Capel Salem gardiau gan bobl o'r ardal leol a thu hwnt, gan gynnwys Cymru yn dymuno'n dda i bawb ar yr achlysur arbennig, a darllenwyd y cyfarchion hyn yn ystod y dathliad. Roedd cyfle hefyd i hel atgofion wrth i nifer o luniau gael eu dangos ar uwchdaflunydd yn olrhain can mlynedd y capel - gwahanol deuluoedd ac unigolion, disgyblion ac athrawon yr ysgol, côr plant, priodasau, gweinidogion, a Gŵyl y Glaniad - a nifer o bobl yno wrth eu bodd yn adnabod wynebau cyfeillion a theulu! Cododd ambell un ar ei draed i rannu eu hatgofion personol o fynychu Capel Salem.




Arweiniodd y Parch. Carlos Ruiz y gynulleidfa mewn gair o weddi, cyn i bawb gael dewis canu 'Calon Lân' naill ai yn Gymraeg neu'n Sbaeneg i glou'r prynhawn o ddathlu. Derbyniodd pawb rodd o siocled a nod tudalen arbennig Capel Salen wrth adael yr adeilad, ac ar dir y capel roedd cyfle i hel atgofion gyda  chyfeillion, ac edmygu'r arwydd newydd sydd bellach uwchben y drws i ddynodi blynyddoedd y capel.



Pen Blwydd Llawen Capel Salem!

## Cornel y Dysgwyr — *Rincon de aprenda Galés*

**Dwi'n sâl... / *Estoy enfermo/a...***



| | |
|---|---|
| **Beth sy'n bod arnat ti?** | *¿Qué te pasa?* |
| **Mae annwyd arna i.** | *Estoy resfriado/a.* |
| **Mae pen tost gyda fi.** | *Me duele la cabeza/Tengo dolor de cabeza.* |
| **Mae peswch arna i.** | *Tengo tos.* |
| **Mae llwnc tost gyda fi.** | *Tengo dolor de garganta/Me duele la garganta* |
| **Mae bol tost gyda fi.** | *Tengo dolor de panza/Me duele la panza.* |
| **Mae cefn tost gyda fi.** | *Me duele la espalda/Tengo dolor de espalda.* |
| **Mae gwres arna i.** | *Tengo fiebre.* |

## Diolch yn fawr i gyfranwyr a noddwyr y rhifyn hwn...


**PLAS HEDD**
Complejo Turístico
Fflatiau moethus a heddychlon ger môr Madryn.
(02965)471357
Stryd F.L. Beltrán 1644/1626

***Plas-y-Coed***



Tŷ Te hynaf Gaiman.
Croeso Cymreig a the traddodiadol ers 1944.
Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.

**TeithiauTango**
Dewch i weld y Wladfa
10002 ATOL PROTECTED
www.teithiautango.co.uk
Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n arbenigo yn y Wladfa.

Nwyddau ar gyfer ffermwyr yn Nhrelew
**camposur**
SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.

***Gwalia Lân***
Bwyty safonol gydag awyrgylch Gymreig a chroeso cynnes.



Cornel Heol Eugenio Tello a Heol Michael D. Jones, Gaiman.

# Caws Lemwn
## - yn flasus ar fara a bisgedi, neu mewn teisennau



Cynhwysion: 60g menyn
225g siwgr mân
3 lemwn - sudd a chroen
2 ŵy

Rhowch y menyn, siwgr, sudd lemwn a chroen lemwn mewn bowlen gwrth-wres a'u cynhesu dros sosban o ddŵr sy'n mudferwi. Peidiwch â berwi'r dŵr, a gwnewch yn siŵr nad ydy gwaelod y fowlen yn cyffwrdd â'r dŵr. Cymysgwch bob hyn a hyn nes bydd y menyn wedi toddi a'r siwgr wedi ymdoddi. Tynnwch oddi ar y gwres.

Yn y cyfamser, curwch yr wyau mewn bowlen arall. Yna arllwyswch y cymysgedd lemwn yn araf at yr wyau, gan chwisgio'r cyfan yn ofalus nes bydd y cyfan wedi cymysgu'n dda. Rhowch y fowlen dros sosban o ddŵr sy'n mudferwi i'w goginio, gan ei chwisgio drwy'r amser, am ryw 2-3 munud neu nes bydd y gymysgedd yn ddigon trwchus i lynu at gefn llwy.

Hidlwch y gymysgedd i fowlen neu jar er mwyn cael gwared â'r darnau bach o groen. Rhowch y caead ar y jar neu orchudd yn dynn dros y fowlen, a'i adael i oeri.

# Ysgol Feithrin y Gaiman yn 19 oed

Mae Ysgol Feithrin y Gaiman yn bedair ar bymtheg oed eleni.




Gyda chymorth Cymdeithas Camwy a Chyngor Tref y Gaiman, sefydlodd Mary Zampini yr ysgol yn 1993, a hynny am fod teuluoedd yr ardal yn awyddus i fagu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Dechreuodd yr Ysgol Feithrin yn un o ystafelloedd yr Ysgol Gerdd, ond symudodd i'r adeilad drws nesaf, ac mae hi yno o hyd. Mae 34 o blant rhwng un a chwech oed yn mynychu'r Ysgol Feithrin rhwng 1.45 a 4.45 bob dydd, ac wedi cael eu rhannu yn dri dosbarth - Dosbarth Melyn, Dosbarth Coch a Dosbarth Gwyrdd.



Cynhaliwyd parti pen blwydd i'r Ysgol Feithrin yn y *pelotero* yn y Gaiman ar y 23ain o Awst, lle gallai'r plant chwarae ar y castell bownsio, yn y pwll peli, neu chwarae pêl-droed, tŷ bach twt, ac yn y parc bach y tu allan. Ac fel pob parti pen blwydd, roedd bwrdd yn llawn danteithion a chanodd y plant a'r athrawon 'Pen Blwydd Llawen' cyn chwythu canhwyllau'r deisen ben blwydd flasus!

Pen Blwydd Llawen i'r Ysgol Feithrin!

# Cwestiynau Clecs

Atebwch y cwestiynau canlynol.
Mae'r atebion i gyd yn y rhifyn hwn o Clecs Camwy!

1. Faint oed ydy'r Gaiman eleni?

2. Pwy enillodd gystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol?

3. Pa gapel sydd yn dathlu ei ben blwydd yn 100 oed eleni?

4. Sawl lemwn sydd ei angen i wneud Caws Lemwn?

5. Ym mha flwyddyn cafodd Ysgol Feithrin y Gaiman ei sefydlu?

6. Ble gafodd y Gymanfa Ganu ei chynnal ym mis Awst?

7. Pwy ysgrifennodd 'Gair o Lanrug'?

8. Pwy ydy'r noddwyr?

9. Pryd mae Diwrnod San Martín?

10. Ble gafodd Gweneira Davies ei geni?

Bydd gwobr i'r enillydd, felly anfonwch eich atebion at Lois Dafydd cyn 25 Medi. Pob hwyl!

## Geirfa'r Mis — *Vocabulario del Mes*


| | | | |
|---|---|---|---|
| dehongliad | ***interpretación*** | heddwch | ***paz*** |
| gweithdy | ***taller*** | arloeswr | ***pionero*** |
| ffair grefftau | ***feria artesenal*** | gorymdaith | ***desfile*** |
| beirniad | ***jurador*** | marchogaeth | ***equitación*** |

# Cornel y Plant

## Llongyfarchiadau i Alisson Brunt, Trelew am liwio'r Mimosa!

### Lliwiwch Jac y Do

Anfonwch eich lluniau at Lois Dafydd erbyn 25 Medi 2012 am gyfle i ennill gwobr!



## Chwilair Offerynnau Cerdd

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| b | d | r | y | m | i | a | u | n | g | b | h | n |
| s | n | d | s | e | g | r | t | ll | u | i | s | y |
| a | m | ll | d | s | o | dd | g | r | w | th | m | t |
| c | dd | o | g | m | f | g | o | t | rh | a | l | g |
| s | r | s | i | h | o | p | r | i | s | g | m | ff |
| o | t | d | t | e | l | y | n | l | d | s | n | l |
| ff | n | f | a | ll | o | r | w | j | th | m | j | i |
| o | c | b | r | h | m | p | i | a | n | o | l | w |
| n | a | s | e | c | l | g | h | ng | f | h | p | t |

Piano
Telyn
Gitâr
Drymiau
Soddgrwth
Utgorn
Ffliwt
Sacsoffon

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2804 386 198